# Polisi a Chanllawiau ar Fyrddau Hysbysebu Cludadwy

## F.1 01/2019

*Wedi'n hymrwymo i bolisïau ac arferion sy'n sicrhau bod Caerdydd yn ddinas y dyfodol i bawb*




**Cyngor Caerdydd**

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU

www.Caerdydd.gov.uk

Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amglychedd

# Cynnwys


Rhagair 1

Cyflwyniad 1

Y Weledigaeth Gorfforaethol 1

Diben y polisi a'r canllawiau hyn 1

Ar bwy y mae Byrddau Hysbysebu yn effeithio? 2

Ymgysylltu ac Ymgynghori 4

Arolygon Stryd 4

Ymgysylltu â Grwpiau Cydraddoldeb a'r GFfMCC 5

Ymgynghori â'r Cyhoedd 5

Rhwystrau 7

Cadw llwybr clir i gerddwyr 7

Byrddau A wedi troi drosodd 8

Ffitiadau 8

Maint 8

Gorfodi yn erbyn rhwystrau 8

Lleoli 9

Nifer y trwyddedau 9

Lleoli o ran llinell yr adeilad 9

Lleoli mewn perthynas â mynedfa'r eiddo 10

Amodau tywydd gwael 11

Byrddau A wedi eu difrodi 12

Ardaloedd Cadwraeth 12

Byrddau Hysbysebu "Ffrâm A" 13

Trwyddedau ar gyfer byrddau Ffrâm A 13

Gorfodi Dull Dim Goddefgarwch 14

Beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud 14

Pwy sy'n gyfrifol am Fwrdd A? 14

Ceisiadau ffug 14

Pam Gorfodi? 15

## Cynnwys


Dull Dim Goddefgarwch 15
Deddf Cydraddoldeb 2010 15
Atafaelu Byrddau A 15
Cosbau 15
Dulliau eraill o hysbysebu 16
Baneri Uchel ar Bolion Lamp 16
Meysydd Parcio a mesuryddion parcio 16
Cyfleoedd noddi 16
Biniau sbwriel 16
Canllawiau ar y Gymraeg 18
Y Weledigaeth Gorfforaethol 18
Defnydd Iaith ar Fyrddau Hysbysebu ar hyn o bryd 18
Pam bod yn Ddwyieithog? 19
Yr hyn y gallech ei wneud 19
Cysylltwch â ni! 20

*“Mae sut rydym yn trin y bobl y mae angen cymorth arnynt fwyaf yn brawf go iawn o werthoedd ein dinas.”*



# Rhagair

## Cyflwyniad

Y Cyngor fel yr awdurdod priffyrdd sy’n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad diogel troedffyrdd a ffyrdd cyhoeddus ac mae dyletswydd arno i ddiogelu hawliau’r cyhoedd i’w defnyddio. Mae gallu symud yn rhydd ac yn hyderus ar draws mannau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn hynod o bwysig i bawb sy’n byw, yn gweithio ac yn ymweld â’r ddinas.

## Y Weledigaeth Gorfforaethol

Mae sut rydym yn trin y bobl y mae angen cymorth arnynt fwyaf yn brawf go iawn o werthoedd ein dinas. Wrth i Gaerdydd dyfu, mae’n bwysicach nag erioed nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl oherwydd ei amgylchiadau, beth bynnag fo’r rheiny. Mae’r boblogaeth yn cynyddu’n barhaus ac felly mae’r galw ar y priffyrdd yn mynd yn fwy drwy’r amser, sy’n creu problemau unigryw o ran rheoli’r droedffordd. Gweledigaeth y Cyngor felly yw creu amgylchedd stryd sy’n fywiog, yn llewyrchus yn economaidd ac yn ddiogel drwy drwyddedu priodol sy’n creu cydbwysedd rhwng anghenion busnesau ac aelodau’r cyhoedd.

## Diben y polisi a’r canllawiau hyn


Mae’r Cyngor wedi ymgynghori â nifer o bartïon a phobl i lunio polisi ar gyfer byrddau hysbysebu sy’n adlewyrchu’r pwysau newidiol a chynyddol y mae nifer gynyddol yr ymwelwyr a chymhlethdodau mewn cymdeithas amrywiol yn ei roi ar y briffordd. Mae’r ddogfen hon yn nodi polisi’r Cyngor ar drwyddedu a defnyddio Byrddau Hysbysebu ynghyd â manylion canlyniadau’r ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori â busnesau, cynrychiolwyr cydraddoldeb ac aelodau o’r cyhoedd sydd wedi helpu i lunio’r polisi hwn.

Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y polisi hwn a thelerau ac amodau trwyddedu, neu unrhyw ddeddf, rheoliad neu is-ddeddf statudol, yna bydd y telerau ac amodau, y ddeddf, y rheoliad neu’r is-ddeddf yn cael blaenoriaeth.

Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at “y Cyngor” yn y ddogfen hon fel Cyngor Caerdydd ac unrhyw gyfeiriad at “Bwrdd” neu “Bwrdd hysbysebu” fel bwrdd hysbysebu cludadwy. Bydd y polisi hwn yn parhau i fod yn weithredol yn ei fersiwn gyfredol nes iddo gael ei ddisodli neu ei ddiddymu.

# Ar bwy y mae Byrddau Hysbysebu yn effeithio?

Yr ateb cyflym i'r cwestiwn hwn yw ar unrhyw un ac ar bawb sy'n defnyddio'r droedffordd neu'r briffordd.



Yn ystod y degawd diwethaf dinas-ranbarth Caerdydd oedd prif ffynhonnell swyddi newydd yng Nghymru ac mae hyn wedi arwain at draean o weithlu'r ddinas yn cymudo bob dydd o'r ardaloedd cyfagos[1]. Gan fod y cynllun datblygu lleol yn ychwanegu 41,000 o dai eraill ac yn ceisio creu hyd at 40,000 o swyddi newydd rhwng 2006 a 2026[2], bydd y pwysau ar briffyrdd a throedffyrdd y ddinas yn cynyddu'n aruthrol. Nid yw pob ardal y briffordd yn addas ar gyfer bwrdd hysbysebu, er enghraifft gallai'r palmant fod yn gul iawn, ac yn agos at brif lwybr traffig prysur a allai orfodi cerddwyr fynd oddi ar y palmant i'r lôn gerbydau a'u rhoi mewn perygl. Dyma pam y mae Deddf Priffyrdd 1980 yn ei gwneud yn ofynnol cael trwydded er mwyn gallu rheoli lle y rhoddir byrddau hysbysebu yn gaeth.

Gall rheoli'r hysbysebion a roddir ar y Briffordd yn effeithiol gyfrannu at yr elfennau canlynol o weledigaeth Caerdydd  - dinas fyw, dinas byw[3]:

**Mae Caerdydd yn Lân ac yn Gynaliadwy** – gwneud yn siŵr nad yw hysbysebu yn cael effaith negyddol ar strydlun y ddinas nac ar symudiadau'r cerddwyr, ac nad yw'n gwneud y stryd yn anniben.

**Mae Caerdydd yn Deg, yn Gyfiawn ac yn Gynhwysol** – sicrhau nad yw hysbysebu'n rhwystro pobl anabl a defnyddwyr eraill y droedffordd/priffordd rhag cyflawni eu gweithgareddau bob dydd.

**Mae Pobl yn Ddiogel yng Nghaerdydd ac yn Teimlo'n Ddiogel** – sicrhau nad yw pobl anabl, na defnyddwyr eraill y droedffordd a allai fod mewn mwy o berygl, yn cael eu rhoi mewn perygl oherwydd y byrddau hysbysebu.

---

[1] Cyfrifiad 2011
[2] Cyngor Dinas Caerdydd – Strategaeth Parcio Caerdydd 2016
[3] Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Caerdydd, 2015-2017

## *Ar bwy y mae Byrddau Hysbysebu yn effeithio?*




Fodd bynnag, mae byrddau hysbysebu yn effeithio ar rai rhannau o'r gymdeithas yn fwy nag eraill. Y rhai yr effeithir arnynt yn benodol yw:

**Pobl sydd â Nam ar y Golwg** – mae'r byrddau hysbysebu yn creu risg difrifol o faglu i'r rheiny sydd â nam ar y golwg a gallant achosi rhwystr a all fod yn anodd ei osgoi pan gânt eu gosod yn amhriodol.

**Y Rheiny sydd ag Anghenion Symudedd Ychwanegol** – Mae hyn yn effeithio ar amryw sectorau'r gymdeithas, gan gynnwys y rheiny sy'n defnyddio sgwteri symudedd a rhieni gyda choetsis, yn ogystal â mamau beichiog a phobl ag anafiadau gyda baglau ac ati.

**Pobl Hŷn ac Ifanc –** Gall byrddau hysbysebu achosi perygl o faglu i bobl hŷn a bod yn berygl syrthio i blant efallai nad ydynt yn sylweddoli y gallai eu camau achosi i'r bwrdd hysbysebu gwympo neu droi drosodd.

Am y rheswm hwn, mae'r Cyngor yn ymwybodol bod rhaid cydbwyso anghenion y busnesau â'r angen i wneud Caerdydd yn lle diogel ac yn gynhwysol i'w holl ddinasyddion, trigolion ac ymwelwyr.

# Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae byrddau hysbysebu cludadwy, neu fyrddau A, wedi bod yn rhan gyffredin o gelfi'r stryd am flynyddoedd lawer. Fodd bynnag, maen nhw'n dueddol o achosi rhwystrau ar y troedffyrdd, a all yn ei dro effeithio ar ddefnydd go iawn y troedffyrdd, sef lle i gerddwyr symud, yn enwedig os nad ydynt wedi eu trwyddedu na'u rheoli'n briodol.

## Arolygon Stryd

Cynhaliwyd nifer o arolygon stryd i helpu i ddeall y sefyllfa cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad. Cynhaliwyd dau arolwg o barthau cerddwyr canol y ddinas[4] ar 2 Mai 2018 ac 14 Mai 2018 a nodwyd 129 a 117 o fyrddau A ar y diwrnodau hynny.  Cynhaliwyd un arolwg o ardaloedd y ddinas ar 17 Mai 2018. Yr ardaloedd hyn oedd Albany Road, Heol y Plwca, Heol Ddwyreiniol y Bont-Faen, Crwys Road a Stryd Fawr Llandaf. Nodwyd 62 o fyrddau A. Nodwyd sawl problem a oedd o bryder penodol i'r arolygwyr:

**Annibendod** – mewn llawer o leoedd, nodwyd bod nifer o fyrddau A wedi eu gosod heb drefn ac yn agos at ei gilydd gan rwystro llif naturiol cerddwyr yn gyfan gwbl, ac yn aml roeddent yn perthyn i'r un busnes.

**Gosod byrddau ar hap –** roedd y rhan fwyaf o'r byrddau A wedi eu gosod ar hap gan orfodi cerddwyr i gerdded rhyngddynt mewn modd afreolaidd.

**Prinder lle ar y droedffordd** – roedd llawer o'r byrddau A wedi'u gosod mewn mannau lle nad oedd modd cynnal digon o le ar y droedffordd i gerddwyr, ac, o bosibl, yn gorfodi cerddwyr ar y ffordd neu oddi ar y droedffordd.

**Wedi troi drosodd** – sylwyd bod nifer o fyrddau hysbysebu wedi troi drosodd ac nid oedd deiliaid y drwydded na pherchenogion y busnes/aelod o staff sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod wedi eu harddangos yn gywir wedi'u codi.

**Wedi eu difrodi** – sylwyd ar fyrddau hysbysebu wedi eu difrodi mewn modd y gellir ei ystyried yn beryglus. Y difrod mwyaf cyffredin oedd bod un neu sawl "coes" byrddau ffrâm A traddodiadol wedi diflannu neu wedi eu torri. Gall unrhyw ddifrod effeithio ar sefydlogrwydd y bwrdd a'i wneud yn fwy tebygol o droi drosodd a/neu achosi anaf.

---

[4] Heol Eglwys Fair, Heol-y-Frenhines, Stryd Caroline, yr Aes, Heol Sant Ioan, Heol yr Eglwys, Stryd Fawr, Stryd Working, Maes Fictoria, Heol Hills

## Ymgysylltu â Grwpiau Cydraddoldeb a'r GFfMCC

Mae Grŵp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd (GFfMCC) yn cynnwys unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli pob un o'r Grwpiau â Nodweddion a Ddiogelir, gan gynnwys y rheiny â gwahanol anableddau ag anghenion ychwanegol. Ei nod yw cynghori ar bolisïau, dyluniad a swyddogaethau cynlluniau a'u harfarnu'n feirniadol, er mwyn sicrhau bod anghenion y gymuned wedi eu diwallu a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

Yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb, dywedodd 855 o'r aelodau a holwyd eu bod wedi cael profiad o fwrdd A yn achosi rhwystr i'r droedffordd neu'r briffordd, a theimlai 70% ohonynt fod y rhwystr hwn wedi effeithio arnynt yn bersonol a dywedodd 55% fod hyn wedi effeithio arnynt yn bersonol oherwydd anabledd[5].

O ganlyniad i hyn, nodwyd y prif themâu canlynol:

- *Mae byrddau A yn aml yn achosi rhwystr fel nad oes digon o le ar ôl ar y droedffordd nac ar y briffordd i unrhyw berson ag anabledd nac â chymhorthion symudedd i fynd heibio yn ddiogel.*
- *Yn aml, roedd y byrddau A wedi eu gosod ar hap a olygai fod angen i bobl ag anableddau a namau, neu i'r rheiny sydd dan anfantais, gerdded rhyngddynt yn "igam-ogam" a bod y rheiny sydd â nam ar y golwg mewn mwy o berygl o faglu.*
- *Gallai byrddau A traddodiadol arwain at bobl yn baglu neu'n syrthio, yn arbennig y rheiny sydd â nam ar y golwg oherwydd gall cymhorthion cerdded basio o dan y coesau a chael eu dal ynddynt.*
- *Roedd byrddau hysbysebu yn aml yn cael eu gosod ar y droedffordd neu'r briffordd pan fyddai amodau tywydd yn achosi iddynt droi drosodd gan gynyddu'r perygl roeddynt yn ei beri i'r cyhoedd.*

Oherwydd hynny, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad â busnesau a'r cyhoedd ar newidiadau arfaethedig i amodau trwyddedu byrddau A rhwng 7/08/2018 a 24/09/2018 mewn ymgais i helpu i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.

## Ymgynghori â'r Cyhoedd[6]

Roedd yr ymgynghoriad â'r cyhoedd ar agor am 6 wythnos a gofynnwyd 7 cwestiwn allweddol ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r telerau ac amodau a luniwyd i helpu i unioni'r prif broblemau a nodwyd gan y grwpiau cydraddoldeb.

[5] Holiadur Grwp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd 2018. 30 o ymatebwyr
[6] Ymgynghoriad Holi Caerdydd 2018. 70 o ymatebwyr 44 o ymatebwyr cyhoeddus / 26 o ymatebwyr busnesau


| | Cwestiwn | Cyfanswm o blaid | Cyfanswm yn erbyn | Lefel y gefnogaeth<br>*Uchel iawn – 80%-100%*<br>*Uchel – 60% - 79%*<br>*Cymedrol – 40%- 59%*<br>*Isel – 20% - 39%*<br>*Isel iawn – 0% - 19%* |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Gall byrddau hysbysebu “Ffrâm A” traddodiadol ar bedair coes fod yn berygl baglu i’r deillion a’r anabl. A ydych yn cefnogi’r Cyngor i atal rhoi trwyddedau ar gyfer byrddau traddodiadol Ffrâm A o blaid byrddau hysbysebu ar un goes i helpu i annog diogelwch? | 54% | 46% | Cymedrol |
| **2** | Er mwyn galluogi pobl i wybod ble fyddai’r lle gorau i gerdded ar y droedffordd i osgoi rhwystrau, a ydych yn cefnogi’r Cyngor i sicrhau bod byrddau hysbysebu yn cael eu gosod mewn man penodol yn unig ar y brifffordd? | 83% | 17% | Uchel iawn |
| **3** | Cynigir gosod pob bwrdd hysbysebu o fewn 1 metr o fynedfa unrhyw fusnes neu gaffi stryd fel y byddai hyn yn helpu pobl, yn enwedig y deillion a’r anabl, i wybod sut i’w hosgoi. A ydych yn cytuno â’r cynnig hwn? | 66% | 34% | Uchel |
| **4** | Cynigir gosod pob bwrdd hysbysebu yn cyffwrdd â’r busnes neu’r caffi stryd gan y byddai hyn yn atal pobl rhag cael eu gorfodi i gerdded yn igam-ogam o gwmpas byrddau hysbysebu sydd wedi cael eu gosod ar hap. A ydych yn cytuno â’r cynnig hwn? | 74% | 26% | Uchel |
| **5** | Mae’r Cyngor yn ystyried a ddylid gwahardd byrddau hysbysebu rhag cael eu gosod allan yn ystod cyfnodau o dywydd eithafol. A ydych yn cytuno â’r cynnig hwn? | 86% | 14% | Uchel iawn |
| **6** | A ydych yn cefnogi dull dim goddefgarwch tuag at fyrddau hysbysebu sy’n achosi rhwystr, sy’n beryglus neu’n anghyfreithlon? | 76% | 24% | Uchel |
| **7** | Nid yw’r Cyngor yn bwriadu gwahardd byrddau hysbysebu ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae Cynghorau’n dueddol o geisio atal cyflwyno trwyddedau byrddau hysbysebu yn llwyr. A ydych yn ein cefnogi i fonitro’r duedd hon a gweld p’un a ellir cyflawni model sy’n gweithio ar gyfer Caerdydd? | 61% | 39% | Uchel |

# Rhwystrau

Teimlai mwy na thraen y bobl a holwyd gan y Cyngor eu bod wedi gweld bwrdd hysbysebu y gellid ei ystyried i fod yn achosi rhwystr ar y briffordd.[7] Mae'n drosedd yn ôl y gyfraith i rwystro'r briffordd yn fwriadol heb awdurdod nac esgus[8] cyfreithiol gan ei bod yn bwysig cynnal llwybr clir ar hyd y briffordd (sy'n cynnwys troedffyrdd ac ymyl ffyrdd) ar gyfer defnyddwyr y briffordd. Diffinnir priffordd fel ardal lle y mae gan y cyhoedd hawl i fynd heibio ac i fynd heibio eto heb gael ei atal a heb drwydded[9]. Felly gellir ystyried ardaloedd tir preifat yn rhan o'r briffordd o hyd a chyfrifoldeb defnyddiwr y drwydded yw bod yn ymwybodol o statws ei dir mewn perthynas â'r amodau trwyddedu.

## Cadw llwybr clir i gerddwyr

Rhaid caniatáu o leiaf **1.2 metr** o ofod heb rwystrau o ffiniau pellaf y bwrdd hysbysebu ar bob adeg. Gan nad oes modd gosod byrddau A ar y lôn gerbydau, llinell cwrbyn y palmant fydd hyn gan amlaf. Mae'r pellter hwn yn caniatáu i ddefnyddwyr y briffordd symud yn rhydd yn ogystal â darparu digon o le i'r rheiny sydd â cherbydau cymorth symudedd neu sydd â chymhorthion cerdded neu eitemau eraill sydd angen rhagor o le megis coetsis.




Ni chaniateir gosod byrddau A ar y lôn gerbydau nac ar leoedd parcio nac mewn ardaloedd eraill a gynlluniwyd yn arbennig i'w defnyddio gan gerbydau. Ni chaniateir iddynt gael eu gosod ger croesfannau i gerddwyr nac ar neu'n agos at balmant botymog. Diben y palmant botymog yw arwain pobl sydd â nam ar y golwg i fannau croesi diogel. Dylid cymryd gofal wrth osod Bwrdd A fel nad yw'n amharu ychwaith ar gelfi stryd ac y cedwir llwybr clir i gerddwyr pan fo celfi stryd yn bresennol hefyd.

---

[7] Arolwg Holi Caerdydd 2018 – (66%)
[8] A137(1) Deddf Priffyrdd 1980
[9] Adroddiad Tŷ'r Cyffredin – Busnes a Thrafnidiaeth SN/BT/402 (18 Hydref 2010)

Pan fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, gellir cael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor i eithrio'r rheol hon, pan fydd y Cyngor yn fodlon nad yw rhoi caniatâd o'r fath yn achosi rhwystr nac yn peri anawsterau i aelodau o'r cyhoedd, yn arbennig y rheiny sydd ag unrhyw fath o anableddau.

## Byrddau A wedi troi drosodd

Mae'n rhaid i fyrddau A sefyll ar eu coesau ac mewn cyflwr da bob amser. Dylai byrddau A fod yn weladwy o'r tu mewn i'r adeilad fel y gall defnyddiwr y drwydded sicrhau bod hyn digwydd. Os yw bwrdd A wedi syrthio yna mae'r perygl y gall ei achosi yn cynyddu'n sylweddol ac ystyrir felly bod unrhyw fwrdd A sydd wedi syrthio yn rhwystr peryglus.

## Ffitiadau

O dan adran 132 Deddf Priffyrdd 1980, ni chaiff unrhyw berson osod ar y briffordd unrhyw lun, llythyr, arwydd neu farc arall ar arwyneb y briffordd nac ar unrhyw goeden, strwythur na gwaith heb ganiatâd uniongyrchol y Cyngor. Mae'r telerau ac amodau yn gwahardd gosod Byrddau A mewn unrhyw ffordd barhaol neu lled-barhaol. Ni chaniateir cloddio'r briffordd mewn unrhyw ffordd i osod Bwrdd A mewn unrhyw amgylchiadau. Gall unrhyw un sy'n mynd yn groes i adran 132 Deddf Priffyrdd fod yn destun Hysbysiad Cosb Benodedig neu gall gael ei erlyn yn Llys yr Ynadon.

## Maint

Rhaid i bob bwrdd A yng Nghaerdydd fod rhwng 550mm a 700mm o led, a rhwng 850mm a 1200mm o uchder o sylfaen y bwrdd. Mae'n bosibl na fydd aelodau'r cyhoedd yn sylwi ar fyrddau A sy'n rhy fach, gan greu perygl baglu, a gall byrddau A sy'n rhy fawr achosi anaf difrifol pe byddent yn syrthio. Am y rheswm hwn ystyrir bod unrhyw fwrdd A sydd naill ai yn llai neu'n fwy na'r meintiau a ganiateir yn rhwystr peryglus.

## Gorfodi yn erbyn rhwystrau

Mae Deddf Priffyrdd 1980 a137(1) yn nodi'r canlynol: "*Os bydd person, heb esgus nac awdurdod cyfreithiol, yn rhwystro pobl rhag symud yn rhydd ar hyd priffordd mewn unrhyw ffordd ac yn fwriadol, mae'n euog o drosedd a gall gael dirwy hyd at £1,000*." Os nodir rhwystr yn ôl ystyr y Ddeddf Priffyrdd, gall y Cyngor gymryd camau gorfodi a all arwain at erlyniaeth yn Llys yr Ynadon.

At ddibenion y polisi hwn, bydd unrhyw rwystr yn cael ei ystyried yn beryglus ac, o ganlyniad, gallwn fynd â bwrdd oddi wrthych heb rybudd.

# Lleoli

Mae'n hollbwysig lleoli'r bwrdd hysbysebu yn y ffordd gywir er mwyn sicrhau na fydd yn amharu ar lif naturiol y cerddwyr ar hyd y briffordd ac i sicrhau y caiff iechyd, diogelwch a blaenoriaethau amgylcheddol eu hannog.




## Nifer y trwyddedau


Caniateir hyd at un Bwrdd Hysbysebu fesul eiddo. Mae gosod mwy nag un Bwrdd A ar y briffordd yn groes i delerau ac amodau'r drwydded ac felly bydd unrhyw drwyddedau a gyflwynwyd yn annilys. Nid yw trwyddedau'n drosglwyddadwy.

## Lleoli o ran llinell yr adeilad

Rhaid gosod bwrdd hysbysebu mewn modd sy'n golygu bod unrhyw ran ohono'n cyffwrdd â llinell adeilad eiddo deiliad y drwydded. Yr unig eithriad i hyn yw pan ddefnyddir caffi stryd trwyddedig a phan fo'r caffi stryd a gweddill y briffordd wedi'u gwahanu'n amlwg (e.e. ffensys trwyddedig). Yn yr achos hwn, caniateir lleoli'r bwrdd hysbysebu mewn man sy'n cyffwrdd â ffiniau corfforol y caffi stryd.  Lleoliad enghreifftiol pan nad oes caffi stryd yn bresennol:



Lleoliad enghreifftiol pan fo caffi stryd yn bresennol:




Os oes gan y busnes ei gwrt blaen ei hun ger y briffordd, dylid gosod y bwrdd hysbysebu o fewn cyffiniau'r cwrt blaen.

Pan fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, gellir cael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor i eithrio'r rheol hon, pan fydd y Cyngor yn fodlon nad yw rhoi caniatâd o'r fath yn achosi rhwystr nac yn peri anawsterau i aelodau'r cyhoedd, yn arbennig y rheiny sydd ag unrhyw fath o anableddau.


## Lleoli mewn perthynas â mynedfa'r eiddo

Dylid gosod byrddau hysbysebu o fewn **1 metr** o fynedfa safle'r busnes neu eiddo y mae'n perthyn iddo a dylai fod yn weladwy o'r tu mewn i'r safle er mwyn sicrhau y gellir unioni'r Bwrdd A pe bai yn syrthio, neu'n cael ei ddifrodi neu'n achosi rhwystr. Ni ddylai'r bwrdd achosi rhwystr i'r rheiny sy'n ceisio dod i mewn i'r safle.

Yn achos caffi stryd, bydd yr un pellteroedd yn berthnasol, ond o'r fynedfa i'r caffi stryd, ar yr amod y cydymffurfir â'r rheolau lleoli mewn perthynas â llinell yr adeilad, fel y nodir uchod.

Pan na fyddai'n bosibl gosod y Bwrdd A o fewn 1 metr o'r fynedfa i'r eiddo heb achosi rhwystr i fynedfa'r eiddo hwnnw yna ceir ymestyn y pellter hwn i **2 fetr.** Dylai'r bwrdd gyffwrdd â llinell yr adeilad neu'r caffi stryd ar bob adeg.

Enghraifft o leoliad mewn perthynas â mynedfa eiddo:




Ni ellir gosod Bwrdd A ymhellach na 2 fetr o fynedfa'r eiddo.

Pan fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, gellir cael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor i eithrio'r rheol hon, pan fydd y Cyngor yn fodlon nad yw rhoi caniatâd o'r fath yn achosi rhwystr nac yn peri anawsterau i aelodau'r cyhoedd, yn arbennig y rheiny sydd ag unrhyw fath o anableddau.

## Amodau tywydd gwael

Nid yw'n briodol gosod byrddau hysbysebu ar y briffordd mewn amodau tywydd gwael gan fod hynny'n peri perygl ac yn eu gwneud yn fwy tebygol o syrthio neu gael eu chwythu oddi ar linell yr adeilad.

**Rhybuddion Tywydd:**

**Ambr –** Mae tebygolrwydd cynyddol o effeithiau tywydd garw. Mae hyn yn golygu bod posibilrwydd o oedi wrth deithio, cau ffyrdd a rheilffyrdd, toriadau yn y cyflenwad pŵer a risg posibl i fywyd ac eiddo.

**Coch –** Disgwylir tywydd peryglus a dylid cymryd camau i gadw pobl yn ddiogel rhag effeithiau'r tywydd garw. Mae'n debygol iawn y bydd perygl i fywyd, ac y bydd y tywydd yn tarfu'n sylweddol ar deithio, y cyflenwad ynni ac, o bosibl, yn achosi difrod heaeth i eiddo a seilwaith.

Ni chaniateir felly gosod Byrddau A pan fo rhybudd tywydd ambr a choch mewn grym yn ôl hysbysiadau'r Swyddfa Dywydd.

I gael rhagor o wybodaeth am rybuddion tywydd a phryd y mae rhybuddion tywydd mewn grym, gallwch fynd i: https://www.metoffice.gov.uk.

Bydd unrhyw Fyrddau A ar y briffordd pan fo’r rhybuddion tywydd hyn mewn grym yn cael eu hystyried yn berygl a chânt eu tynnu ar unwaith heb unrhyw hysbysiad. Mae’n bosibl y cymerir camau gorfodi ychwanegol hefyd.

## Byrddau A wedi eu difrodi

Mae’n rhaid i Fyrddau A fod mewn cyflwr da ar bob adeg. Mae Byrddau A sydd wedi eu difrodi yn llai sefydlog yn strwythurol ac yn peri perygl i ddiogelwch felly cânt eu hystyried yn beryglus a’u tynnu ar unwaith. Cyn gosod Bwrdd A ar y briffordd, dylid gwirio’r bwrdd am ddiffygion a difrod bob amser.

## Ardaloedd Cadwraeth

Mewn ardaloedd cadwraeth sensitif y tu allan i’r Cynllun Datblygu Lleol, Ardal Siopa Ganolog neu Ganolfannau Lleol/Rhanbarthol, caiff pob cais ei ystyried ar ei rinweddau ei hun cyn caniatáu trwydded.

# Byrddau Hysbysebu “Ffrâm A”

Ceir nifer o wahanol gynlluniau Bwrdd A, ond y fwyaf cyffredin yw’r bwrdd Ffrâm A “traddodiadol” ar bedair coes. Fodd bynnag, gall fframiau A achosi perygl penodol i’r rheiny sydd â nam ar y golwg gan y gall cymhorthion cerdded fynd o dan y coesau heb rybuddio’r unigolyn am y bwrdd cyn ei gyrraedd.

Nodir hefyd fod coesau’r byrddau Ffrâm A yn torri gan ddifrodi’r Bwrdd A ac mae hyn yn effeithio ar sefydlogrwydd ei gynllun, yn enwedig wrth sôn am fyrddau pren.

## Trwyddedau ar gyfer byrddau Ffrâm A

O **01/04/2020** ymlaen, ni chyflwynir trwyddedau ar gyfer byrddau hysbysebu traddodiadol Ffrâm A mwyach, a chaiff byrddau hysbysebu Ffrâm A eu gwahardd yng Nghaerdydd ar ôl **01/04/2020.**

Mae hyn yn golygu mai un goes yn unig ddylai gyffwrdd â’r palmant neu’r briffordd, o unrhyw gyfeiriad teithio, heb fod modd i gymhorthion cerdded neu unrhyw wrthrych fynd o dan y bwrdd.

Ni fydd hyn yn effeithio ar y deunyddiau y ceir gwneud y byrddau ohonynt, er enghraifft gellir gwneud byrddau o bren neu fetel ar yr amod mai un goes yn unig sy’n cyffwrdd â llinell y llawr a’u bod yn gryf ac yn ddiogel.

Defnyddir yr isod at ddibenion arddangos yn unig:

| **Wedi eu gwahardd** | **Wedi eu caniatáu** | |
|---|---|---|
|  |  |  |

Ystyrir i unrhyw fyrddau Ffrâm A a osodir ar y briffordd ar ôl **01/04/2020** fynd yn groes i’r telerau ac amodau a chymerir camau gorfodi yn erbyn byrddau o’r fath a all gynnwys eu tynnu gyda rhybudd.

# Gorfodi Dull Dim Goddefgarwch

## Beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud




Mae adran 137(1), Deddf Priffyrdd 1980 yn nodi'r canlynol:

*"Os bydd person, heb esgus nac awdurdod cyfreithiol, yn rhwystro pobl rhag symud yn rhydd ar hyd priffordd mewn unrhyw ffordd ac yn fwriadol, mae'n euog o drosedd a gall gael dirwy hyd at £1,000."*

Rhoddir awdurdod cyfreithiol gan yr Awdurdod Lleol (Cyngor Caerdydd yn yr achos hwn) fel yr Awdurdod Priffyrdd drwy gyfrwng trwyddedu.

Mae adran 149(1), Deddf Priffyrdd 1980 yn nodi'r canlynol:

"(1) *Os bydd unrhyw eitem yn cael ei adael ar briffordd mewn modd sy'n cael ei ystyried yn niwsans, gall yr awdurdod priffyrdd gyflwyno hysbysiad i'r person a adawodd yr eitem yno i'w gwaredu ar unwaith, ac os bydd yn methu â chydymffurfio â'r hysbysiad, gall yr awdurdod gyflwyno cwyn i Lys yr Ynadon i gael gorchymyn gwaredu dan yr adran hon.*

*(2) Os oes gan awdurdod priffyrdd priffordd unrhyw reswm rhesymol dros ystyried – (a) bod unrhyw eitem sy'n cael ei gwaredu'n anghyfreithlon ar y priffyrdd yn achosi perygl (gan gynnwys perygl drwy rwystro golwg) i ddefnyddwyr y briffordd, a (b) y dylai'r eitem dan sylw gael ei gwaredu heb yr oedi a achosir wrth gyflwyno'r hysbysiad neu gael gorchymyn gwaredu gan Lys yr Ynadon dan yr adran hon, gall yr Awdrudod gael gwared ar yr eitem ar unwaith."*

## Pwy sy'n gyfrifol am Fwrdd A?

Cyfrifoldeb berchennog y busnes sy'n gyfrifol am y Bwrdd A yw sicrhau ei fod wedi ei drwyddedu'n gywir ac yn cael ei ddefnyddio yn gyfreithlon ac yn ddiogel. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo cwmni yn gwmni cyfyngedig ac yn yr achos hwnnw, ysgrifennydd y cwmni fyddai'n gyfrifol.

## Ceisiadau ffug

Wrth wneud cais am drwydded Bwrdd A cyfrifoldeb yr ymgeisydd a phan fo'n berthnasol, ei gynrychiolydd, yw sicrhau ei fod yn gwneud cais yn onest ac yn ôl y wybodaeth sydd ganddo.

Cymerir camau gorfodi llym yn erbyn unrhyw bersonau pan nodir eu bod wedi cynnwys manylion anghywir ar eu cais am Fwrdd A, eu bod wedi cyflwyno'r cais yn dwyllodrus neu nad oedd y cais yn wir hyd at eithaf y wybodaeth a oedd gan yr ymgeisydd ar y pryd.

## Pam Gorfodi?

Mae gorfodi yn allweddol ar gyfer annog defnydd diogel a synhwyrol o fyrddau hysbysebu drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Priffyrdd ac unrhyw amodau trwyddedu a wneir. Defnyddir yr amodau trwyddedu hyn i sicrhau amgylchedd diogel i'r gwasanaethau stryd.

## Dull Dim Goddefgarwch

Mae methu â glynu wrth delerau ac amodau'r drwydded a roddwyd yn berygl i ddiogelwch. Bydd y Cyngor a'i swyddogion awdurdodedig yn gweithredu dull dim goddefgarwch yn erbyn unrhyw achosion o dorri'r telerau ac amodau neu ofynion deddfwriaethol. Cynhelir ymchwiliad i unrhyw fyrddau hysbysebu y canfuwyd eu bod yn torri'r telerau ac amodau, a chymerir camau priodol yn erbyn hynny.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'n rhaid i bob bwrdd A gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ni ddylai hyrwyddo na chynnwys deunydd a all anffafrio rhywun, digio rhywun neu annog aflonyddwch neu erledigaeth. Ni ddylai unrhyw fwrdd A wahaniaethau yn erbyn unrhyw berson ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gymryd camau pan ellid ystyried bod bwrdd yn mynd yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu pan ellir ystyried ei fod yn anaddas neu'n peri tramgwydd i rywun.

## Atafaelu Byrddau A

Pan fo swyddog awdurdodedig yn ystyried bod Bwrdd A yn berygl yna caiff y Cyngor dynnu'r Bwrdd A oddi ar y stryd ar unwaith a'i storio am **14 diwrnod** gan godi'r gost am wneud hynny ar y perchennog. Bydd methu â chasglu'r bwrdd a thalu'r ffioedd perthnasol o fewn yr amserlen hon yn arwain at waredu'r bwrdd.

Mewn unrhyw amgylchiadau eraill, bydd swyddog awdurdodedig yn hysbysu'r person a ymddengys i fod yn gyfrifol am y Bwrdd A gan ofyn iddo dynnu'r Bwrdd A oddi ar y briffordd. Mae'n rhaid cydymffurfio â'r hysbysiad hwn neu fel arall, gellir gweithredu camau gorfodi ychwanegol neu wneud cais am orchymyn llys i gyflawni gofynion yr hysbysiad.

## Cosbau

Gan mai tramgwyddau troseddol yw tramgwyddau Bwrdd A, yn hytrach na thramgwyddau sifil, bydd yr erlyniad yn cael ei gynnal drwy Llys yr Ynadon fel arfer.

# Dulliau eraill o hysbysebu

Nid defnyddio byrddau A yw'r unig ffordd y gall busnesau hyrwyddo eu hunain yng Nghaerdydd. Mae'r Cyngor yn cynnig amrywiaeth o ddulliau eraill nad oes ganddynt yr un problemau diogelwch â Byrddau A, na chanfyddiad negyddol y cyhoedd y gall y problemau hyn ei achosi. Rhestrir isod ychydig o'r dewisiadau mwyaf poblogaidd:

## Baneri Uchel ar Bolion Lamp

Mae mwy na 200 o faneri gweladwy iawn o ansawdd ffotograffig ar strydoedd mawr masnachol, llwybrau cymudo a lleoliadau prysur mewn cymdogaethau ledled Caerdydd. Mae baneri uchel ar bolion lamp yn cynnig cyfle unigryw i gyfleu negeseuon i siopwyr ac mae'r gyfradd atgoffa sydd 2.5 gwaith yn well na'r un hysbyseb ar lefel y tir. Er mwyn hysbysebu ar ein Baneri Uchel ar Bolion Lamp yng Nghaerdydd, ffoniwch 020 8343 2525 i siarad ag un o'n haelodau staff profiadol sy'n ymwneud â gwerthiannau a fydd yn egluro'r holl ofynion ichi, neu fel arall cysylltwch â directsales@baymedia.co.uk am ragor o wybodaeth.

## Meysydd Parcio a mesuryddion parcio

Mae gan y Cyngor 95 o fesuryddion parcio ledled Caerdydd ac mae mwy na 30,000 o gerbydau yn defnyddio meysydd parcio'r Cyngor bob wythnos. Mae defnyddwyr ceir yn debygol o wario arian ar siopa, bwyd a manwerthu a gall hyrwyddo busnes drwy hysbysebu mewn maes parcio neu ar fesuryddion parcio fod yn ffordd effeithiol iawn o gyrraedd cynulleidfaoedd allweddol. Ffoniwch 029 2233 0952 ar gyfer pob math o hysbysebu mewn meysydd parcio ac ar fesuryddion parcio, ac am ymholiadau noddi.

## Cyfleoedd noddi

Mae mwy na 350,000 o drigolion yn byw yng Nghaerdydd a daw 21 miliwn o bobl i ymweld â'r ddinas bob blwyddyn. Mae noddi eiddo'r Cyngor yn ffordd gost effeithiol o gyrraedd cynulleidfa eang a dangos cefnogaeth i'r ddinas. Dyma rai enghreifftiau o gyfleoedd i noddi: arwyddion ffin, polion totem, arwyddion wrth ymyl y ffordd, gwisgoedd gwaith, meinciau a dysglau. I drafod cyfleoedd noddi e-bostiwch GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk.

## Biniau sbwriel

Gall defnyddio rhwydwaith Caerdydd o fwy na 100 o leoliadau biniau sbwriel fod yn ddull cost effeithiol wedi'i dargedu o gyfleu neges i boblogaeth ddinesig helaeth. Bydd yr hysbyseb ar ddeunydd finyl cryf ac o ansawdd ffotograffig a cheir gwahanol feintiau o gynlluniau ar gyfer biniau sbwriel. Lleolir y biniau sbwriel hyn mewn ardaloedd â nifer ymwelwyr hynod uchel a phrysur yn fasnachol ar draws y ddinas. Mae'r fformat yn ddelfrydol ar gyfer cryfhau effaith ymgyrchoedd eraill, neu fel fformat ar ei ben ei hun i ysgogi ymwybyddiaeth o frand yn gyflym. Er mwyn hysbysebu ar ein biniau sbwriel penodol yng Nghaerdydd,

ffoniwch 020 8343 2525 i siarad ag un o’n haelodau staff profiadol sy’n ymwneud â gwerthiannau a fydd yn egluro’r holl ofynion ichi, neu fel arall cysylltwch â directsales@baymedia.co.uk am ragor o wybodaeth.

# Canllawiau ar y Gymraeg

## Y Weledigaeth Gorfforaethol


Nod y Cyngor yw creu Caerdydd Ddwyieithog go iawn a dinas y gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae ynddi, yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn ffordd gyfartal drwy ein strategaeth ddwyieithog 2017-2022 – prifddinas lle hybir dwyieithrwydd fel rhywbeth hollol naturiol, a lle amddiffynnir y Gymraeg a'i meithrin fel y gall cenedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau! Mae'r canlynol ymysg blaenoriaethau strategaeth y Cyngor:

- *Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy i adlewyrchu 'Caerdydd Ddwyieithog'*
- *Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw i Gaerdydd fel prifddinas a dinas graidd, a hyrwyddo'r brand 'Caerdydd Ddwyieithog'.*
- *Cefnogi gweithgareddau cymunedol presennol Cymraeg a rhannu arfer da.*

Mae hyn felly yn cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg drwy fusnesau annibynnol a chefnogi ei defnydd ar unrhyw fodd o hysbysebu y gallent ei ddefnyddio.

## Defnydd Iaith ar Fyrddau Hysbysebu ar hyn o bryd

Cynhaliodd swyddogion Cyngor Dinas Caerdydd ddau arolwg cerdded[10] er mwyn deall y problemau a wynebir ar hyn o bryd o ran defnyddio'r Gymraeg ar fyrddau hysbysebu. Cynhaliwyd yr arolwg cychwynnol ym mharth cerddwyr canol y ddinas a rhoddwyd pob bwrdd hysbysebu yn un o dri phrif gategori: cwbl ddwyieithog, rhannol ddwyieithog a Saesneg yn unig.




[10] A gynhaliwyd ar 15/05/2018 a 17/06/2018

O'r 129 o fyrddau hysbysebu yr arsylwyd arnynt ym mharth cerddwyr canol y ddinas, dim ond 2 oedd yn gwbl ddwyieithog, 2 oedd yn rhannol ddwyieithog, ac nid oedd 125 o fyrddau hysbysebu yn ddwyieithog o gwbl. Mae hyn yn golygu bod 97% o fyrddau hysbysebu o fewn prif barth canol y ddinas heb unrhyw eiriau Cymraeg. Ar un o'r byrddau rhannol ddwyieithog dim ond "thank you/diolch" oedd wedi'i gyfieithu.

Cynhaliwyd ail arolwg ar hyd Albany Road, Wellfield Road a Stryd Fawr Llandaf. O'r 35 o fyrddau hysbysebu ar hyd y ffyrdd hyn, nid oedd yr un yn ddwyieithog mewn unrhyw ffordd.

## Pam bod yn Ddwyieithog?

Mae gwaith ymchwil yn dangos yn glir bod y cyhoedd yn gwerthfawrogi gwasanaethau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg gan fusnesau ac elusennau. Mae hyn yn arbennig o wir yn arbennig o ran marchnata a gwneud cyswllt uniongyrchol[11]. Mae oddeutu 19% o boblogaeth Cymru yn gallu darllen, siarad neu ddeall y Gymraeg[12]. Mae achos busnes cryf i gwmnïau ddefnyddio'r iaith ac mae mwy o gefnogaeth nag erioed o'r blaen i wneud hynny'n rhwydd. I helpu, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun 'Cymraeg Byd Busnes' sy'n cynnig cefnogaeth, adnoddau a chyngor i fusnesau gan gynnwys gwasanaeth cyfieithu am ddim. Am fwy o wybodaeth, ewch i http://cymraeg.gov.wales/business.



Gallai rhoi Cymraeg a Saesneg ar eich byrddau hysbysebu wella boddhad cwsmeriaid, cynyddu nifer eich cwsmeriaid ac arwain at ragor o werthiannau gyda newid na fydd yn rhy anodd ei wneud.

## Yr hyn y gallech ei wneud

Ystyriwch y manteision y gallai'r Gymraeg eu cynnig bob tro, a sicrhewch fod unrhyw hysbysebion yr ydych yn eu rhoi yn wirioneddol ddwyieithog. Mae nifer o wasanaethau cyfieithu ar-lein y gallech ystyried eu defnyddio. Maent yn hygyrch ac mae rhai nad ydynt yn codi ffi am eu gwasanaeth. Mae'n

[11] Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg – Defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol – canllawiau ymarferol ar gyfer busnesau ac elusennau
[12] Cyfrifiad 2011

bosibl y byddech hyd yn oed yn dewis cofrestru ar gwrs i ddysgu i siarad Cymraeg er mwyn cynnig profiad hollol ddwyieithog i'ch cwsmeriaid.

Os yw hyn yn berthnasol i chi, gallech siarad â'ch prif swyddfa am y manteision o fod yn ddwyieithog a gofyn iddynt gynnig hyn fel dewis i unrhyw siopau neu fusnesau sydd ganddynt yng Nghymru.

Wrth ddylunio ac arddangos gwybodaeth ddwyieithog, sicrhewch nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan ystyried:

- Golwg gweledol deunyddiau (er enghraifft o ran lliw neu ffont unrhyw destun)
- Maint y deunydd
- Safle ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus
- Pryd a sut y cyhoeddir, y darperir neu yr arddangosir y deunydd
- Fformat y deunydd a gyhoeddir.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â CaerdyddDdwyieithog@caerdydd.gov.uk

## Cysylltwch â ni!

A oes gennych chi stori dda i'w rhannu am eich profiad o hyrwyddo'r Gymraeg drwy hysbysebu? Cysylltwch â ni! Hoffem gael gwybod sut y mae'r Gymraeg wedi eich helpu chi neu eich busnes a'i rannu fel arfer da.

Hefyd, gallwch geisio cyngor bob amser gan y Cyngor drwy ffonio Cysylltu â Chaerdydd ar 0290 2087 2088 neu ewch i www.caerdydd.gov.uk lle cewch ragor o wybodaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg.